

Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **28 Tachwedd 2019** i:

Tîm MDPH Iechyd a Lles
Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod

e-bost: AHWB@llyw.cymru

Nodwch pa un o'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol rydych yn perthyn iddo:

Plentyn neu berson ifanc	☐
Rhiant/gofalwr	☐
Aelod arall o'r teulu	☐
Ysgol, athro, llywodraethwr	☐
Ymarferydd addysg arall	☐
Sefydliad neu gorff cynrychioliadol	☒
Unigolyn	☐
Arall	☐

Arall (nodwch): HC1 _____

Cwestiwn 1 – Beth fyddai'r goblygiadau i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion petai'n ofynnol i bob dysgwr gael gwersi Addysg Grefyddol a/neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd?

Rhowch eich sylwadau yn y lle gwag isod:

Ym marn UCAC, byddai manteision pendant i hyn.

O safbwynt y dysgwyr, sef y brif ystyriaeth, mae'r cynnig yn gwbl gydnaws gydag ethos ac egwyddorion y cwricwlwm newydd (sydd wedi ennyn cytundeb eang), ac yn greiddiol at weithredu ar sail pedwar diben y cwricwlwm, a chaniatáu i'n plant a phobl ifanc ddatblygu'n ddinasyddion iach, egwyddorol a gwybodus.

Yn sgil natur ein bywydau a'n cymdeithas ar hyn o bryd, mae'r pynciau/meysydd hyn yn gwbl greiddiol i roi'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau sydd eu hangen ar ein plant a phobl ifanc i gadw eu hunain yn iach a diogel, ac i ganiatáu iddynt, a rhoi anogaeth iddynt, greu y math o gymdeithas wâr rydym ni am ei weld yng Nghymru, a thu hwnt.

O safbwynt ysgolion ac athrawon, mi fyddai sicrhau bod pawb yn derbyn yr un ddarpariaeth yn y meysydd hyn yn teimlo'n decach, ac yn ogystal yn symlach a fwy rhesymegol o safbwynt addysgol, a threfniadaethol.

O gael y cynnwys a'r pwyslais yn gywir (a hyderwn bod hynny'n bosib), mae UCAC o'r farn na ddylai bod rheswm gan unrhyw riant i ddymuno eithrio'u plant o'r ddarpariaeth werthfawr hon. Ar y sail honno, cytunwn mai dileu'r anomaledd yw'r cam cywir i'w gymryd.

Cwestiwn 2 –Pa gymorth, gwybodaeth ac arweiniad fyddai eu hangen petai'r dull gweithredu hwn yn cael ei fabwysiadu?

Rhowch eich sylwadau yn y lle gwag isod:

Gan fod y meysydd hyn yn rhai sensitif, sy'n gallu bod yn ddadleuol, byddai'n fanteisiol sicrhau **cyfathrebu clir ac uniongyrchol gyda rhieni a llywodraethwyr** er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddibynadwy ynghylch y drefn newydd – a bod mynediad at wybodaeth bellach ar gael yn rhwydd i'r sawl sydd am gael dealltwriaeth fanylach. Bydd angen bod yn gwbl glir mai polisi cenedlaethol yw hwn, a'i fod yn ofyniad statudol.

O safbwynt ysgolion, yn amlwg bydd angen **canllawiau clir ynghylch cynnwys addas**, er mwyn bod yn ddatblygiadol briodol ac er mwyn gallu bod yn hyderus bod pwyslais a chydbwysedd cywir – a sicrhau cysondeb yn hynny o beth ledled Cymru.

Yn ogystal, bydd angen **canllawiau clir ynghylch sut i gyflwyno rhai o'r elfennau** mwyaf sensitif ac 'anodd', yn ogystal ag enghreifftiau o arfer dda.

O gofio y bydd mwyafrif yr athrawon sy'n cyflwyno'r pynciau/meysydd hyn heb gael hyfforddiant (cychwynnol) perthnasol, byddai **rhaglen o ddatblygiad proffesiynol** yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r newidiadau hyn yn llwyddiannus. Byddai'n werth codi ymwybyddiaeth o fewn y proffesiwn o rai o'r problemau a'r peryglon posib wrth gyflwyno'n pynciau sensitif hyn, gyda chynghor ynghylch sut i'w hosgoi, neu sut i ddelio â nhw petaent yn codi.

Gan ragweld y bydd rhai rhieni, neu garfannau eraill o fewn cymunedau ehangach ysgolion, yn anffodlon ar y cynigion, byddai'n werthfawr iawn pe byddai modd rhoi **arweiniad i Gyrrff Llywodraethu ysgolion, ac arweinwyr ysgol ar sut i ddelio ag anffodlonrwydd neu heriau** o'r fath - gan gynnwys, ceisio datrys y sefyllfa'n lleol (efallai deunyddiau parod i'w defnyddio) ond cyngor yn ogystal ynghylch at bwy i droi os nad oes modd cael datrysiad lleol (pwyntiau cyswllt o fewn Awdurdodau Lleol a/neu consortia rhanbarthol) a pha fathau o brosesau sydd yn eu lle. Rhaid cofio mai polisi cenedlaethol a gofyniad statudol fyddai hwn, ac na fyddai'n briodol cyfeirio gwrthwynebiad at ysgolion unigol.

Cwestiwn 3 – Ein cynnig yw na ddylai rhieni/gofalwyr allu atal eu plant rhag cael gwersi Addysg Grefyddol neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Caiff hyn ei gyflwyno o fis Medi 2022, i bob dysgwr oed cynradd a dysgwyr ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd (gyda grwpiau blwyddyn eraill yn cael eu hychwanegu bob blwyddyn).

A ddylai gallu rhieni/gofalwyr i atal eu plentyn rhag cael gwersi Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd ddod i ben o dan yr hen gwricwlwm o fis Medi 2022? (Byddai hyn ond yn effeithio ar ddysgwyr ym Mlwyddyn 8–11 yn 2022, Blwyddyn 9–11 yn 2023 ac yn y blaen.)

Dylai	☒	Na ddylai	☐	Ddim yn siŵr	☐
--------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Nodwch y rhesymau dros eich dewis:

O safbwynt hwylustod cyflwyno'r newid, mi fyddai manteision pendant i'w wneud yn gyfochrog, ac ar yr un amserlen, â chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mi allai'r newid fod yn llai dadleuol o'i wneud felly, gan ei fod yn rhan o'r trefniadau ehangach newydd, ac yn gwbl gydnaws â nhw.

Cwestiwn 4 – Beth sy'n enw priodol i 'addysg grefyddol', er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach a gynigir ar gyfer y cwricwlwm newydd yn gywir?

Dim newid	☐	Crefyddau, gwerthoedd a moeseg	☐	Crefyddau a bydolygon	☒	Arall (nodwch)	☐
------------------	--------------------------	---------------------------------------	--------------------------	------------------------------	-------------------------------------	-----------------------	--------------------------

Arall (nodwch): HC2 _____

Y rhesymau dros eich dewis:

Byddai newid yr enw'n caniatáu gwell adlewyrchiad o gwmpas newydd y maes pwnc. Mae 'Crefyddau, gwerthoedd a moeseg' efallai braidd yn hir a thrwsgl i fod yn ymarferol i'w ddefnyddio ar lafar.

Cwestiwn 5 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Bydd angen sicrhau bod unrhyw hyfforddiant, datblygiad proffesiynol, canllawiau ac adnoddau ar gael i ysgolion yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

☐